**Hunanarfarniad Tai Cymoedd i'r Arfordir o Gydymffurfiaeth â'r Safonau Rheoleiddio**

Tai Cymoedd i'r Arfordir, Rhif Cofrestru 30205R
Swyddfa Gofrestredig – Parc Busnes Tremaen, Heol Tremaen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1TZ

Yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, mae'r ddogfen hon yn cynnwys hunanarfarniad y Gymdeithas o'i chydymffurfiaeth â phob un o'r Safonau Rheoleiddio.

Os na ellir tystio cydymffurfiaeth lawn ag unrhyw rai o'r Safonau Rheoleiddio, gweler y camau gweithredu ar gyfer gwella'r gydymffurfiaeth yn ein cynllun gwella. Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys y camau gweithredu y byddwn yn ymgymryd â nhw i hyrwyddo gwelliant parhaus ar draws y sefydliad yn unol â gofynion y Safonau Rheoleiddio.

## Ein Hunanarfarniad

Mae ein hunanarfarniad yn adlewyrchu ein perfformiad yn ystod taith o newid sylweddol ac un o'r cyfnodau mwyaf heriol a bregus yn economaidd. Yn ystod y pandemig, cafwyd cyfnod cythryblus wrth i ni lywio ein ffordd allan o Covid, ac yn sgil hynny mae'r newidiadau yr oeddem eisiau eu hyrwyddo yn cymryd yn hirach na'r disgwyl. Felly, mae'r daith yn mynd rhagddi.

Yn 2020, lansiom ein cynllun corfforaethol 10 mlynedd a oedd wedi'i wreiddio'n gadarn yn ein diben, sef "diogel a hapus". Mae ein cynllun yn amlinellu tri cham cyflawni - Sylfaen, Adeiladu a Thyfu. Mae gennym uchelgeisiau gwych fel Cymdeithas ond bydd tair blynedd gyntaf ein strategaeth yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar y 'Pethau Pwysig' i sicrhau bod gennym sylfeini cryf mewn lle. Mae ein Rhaglen Drawsnewid, a ganolbwyntiodd ar wella ein gwasanaethau atgyweiriadau a chynnal a chadw a bodlonrwydd cwsmeriaid yn yr ardal hon yn enghraifft o sut ydym wedi defnyddio ein data ac adborth gan ein cwsmeriaid i fod yn sail i'n ffocws. Cyn dechrau'r Rhaglen Drawsnewid, dangosodd ein data bod ansawdd ein gwasanaeth atgyweiriadau a chynnal a chadw yn annigonol. Felly, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yr adnabuwyd a gwella'r gwasanaeth, crëwyd y Rhaglen Drawsnewid i ddarparu dull gweithredu clir a mesuredig i wella'r gwasanaeth i'n tenantiaid.

Rydym yn sefydliad sy'n ariannol sefydlog ac yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf 2022, cafodd ein Bwrdd adroddiad Cwblhau Archwiliad allanol a gadarnhaodd archwiliad glân o'n cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Ers ein dyfarniad diwethaf, rydym wedi cael trefn newydd ar ein cyllid ac mae gennym gyflenwad cryf o gartrefi newydd ar y gweill sy'n ein cadw ni ar y llwybr cywir i gyflawni ein huchelgais o adeiladu 1000 o gartrefi newydd dros dymor ein strategaeth.

Rydym wedi parhau i gryfhau ein llywodraethiant drwy benodi Cyfarwyddwr Llywodraethiant newydd a fydd yn ymgymryd ag Adolygiad Llywodraethiant drwy gydol chwarter 3 a 4. Er ei fod yn dal i fod yn weddol newydd i'r swydd, mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant eisoes wedi ychwanegu gwerth, yn enwedig drwy adnabod diffyg technegol a chymryd camau gweithredu yn syth, a mewnosod cynllun gweithredu adferol i ddatrys y sefyllfa ac i sicrhau bod rheolyddion ar waith i leihau unrhyw risg o hyn yn digwydd eto.

Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu newydd i ymgysylltu â'n cwsmeriaid i'n helpu ni i gyrraedd amrywiaeth eang o unigolion drwy nifer o ffurfiau diddorol a chreadigol. Bydd cyfleoedd ymgysylltu yn fywiog ac yn apelgar ac wedi'u dylunio mewn ffordd i sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol ac yn hygyrch i'n tenantiaid. Mae Cymoedd i'r Arfordir yn ymgysylltu'n weithredol gyda thenantiaid i sicrhau eu bod yn deall dull gweithredu'r sefydliad o ran cyfraniad gan denantiaid a'u bod yn ymwybodol o sut allant gymryd rhan. Rydym yn gweithio tuag at fewnosod dull gweithredu ar draws y sefydliad cyfan o ran ymgysylltiad cwsmeriaid. Mae hynny'n golygu y bydd yr holl dimau yn gweithio gyda chwsmeriaid, ac yn gwrando ar gwsmeriaid, i sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn bodloni eu hanghenion.

Rydym yn gwbl ymrwymedig i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ond cydnabyddwn ein bod ar daith yn hynny o beth. Rydym yn datblygu ein map trywydd 4 mlynedd ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda hyfforddiant ar gyfer y Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2022.

Parhawn i fod yn ymrwymedig i gartrefi Diogel a Hapus sy'n bodloni'r gofynion cydymffurfio sylfaenol o ran diogelwch a safonau ansawdd adeiladu. Fel sefydliad, rydym yn awyddus i wneud mwy a gwella ein cartrefi y tu hwnt i'r safonau sylfaenol ond oherwydd

diffyg cyllid gwaddol/buddsoddiadau'r lwfans atgyweiriadau mawr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, nid oes gennym lawer o hyblygrwydd o ran beth allwn ni ei wneud yn rhesymol i gyflawni ar gyfer ein cwsmeriaid.  Bydd y Gymdeithas yn parhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru mewn ymgais i sicrhau cyllid ychwanegol i'n galluogi ni i barhau i wella ansawdd y cartrefi yr ydym yn eu darparu a'r effaith y gallwn ei chael ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

**Joanne Oak, Prif Swyddog Gweithredol ac Anthony Whittaker, Cadeirydd y Bwrdd.**
**Awst 2022**
**CC Y Bwrdd**

**Cipolwg ar Gydymffurfiaeth**

| SRh1 | SRh2 | SRh3 | SRh4 | SRh5 | SRh6 | SRh7 | SRh8 | SRh9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a | a | a | a | a | a | a | a | a |
| b | b | b | b | | b | b | b | |
| c | c | c | c | | | c | c | |
| d | | d | d | | | d | | |
| e | | | | | | e | | |
| f | | | | | | | | |
| g | | | | | | | | |

| Cyf. | Safon Rheoleiddio | | |
|---|---|---|---|
| **SRh1** | **Mae gan y sefydliad arweinyddiaeth strategol effeithiol a threfniadau llywodraethu sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a'i amcanion** | | |
| **Gofynion** | **Sylwebaeth** | **Tystiolaeth o sicrwydd** | **Statws Cydymffurfiaeth** |
| a) Meddu ar gynllun busnes sy'n adlewyrchu ei weledigaeth, ei ddiwylliant a'i werthoedd ac yn sefydlu sut fydd y sefydliad yn cyflawni ei brif ddiben fel landlord cymdeithasol | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn meddu ar Gynllun Corfforaethol sy'n adlewyrchu ei weledigaeth, ei ddiwylliant a'i werthoedd ac yn sefydlu sut fydd y sefydliad yn cyflawni ei brif ddiben ac yn cael ei gefnogi gan ein cynllun gweithredu blynyddol.<br><br>Mae gan y sefydliad gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n cael eu monitro'n barhaus gan y Tîm Arwain a chaiff y perfformiad mewn perthynas â phob un ohonynt eu hadrodd i'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol bob chwarter. | • Cynllun Corfforaethol<br>• Cynllun gweithredu blynyddol<br>• Cyflwyno adroddiadau ar berfformiad integredig i'r Bwrdd bob chwarter.<br>• Cynnal cyfarfodydd gyda'r Swyddogion Arwain Perfformiad bob mis. | |
| b) Yn cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethu ei hun ac yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol | Mae gan Cymoedd i'r Arfordir gyfres o ddogfennau llywodraethu ar waith sy'n cynnwys Rheolau'r Sefydliad, Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Bwrdd, yn ogystal â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o | • Adroddiadau canlyniadau Archwiliadau Mewnol<br>• Adroddiadau'r is-bwyllgor i'r Bwrdd - cofnodion a diweddariadau llafar<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | is-bwyllgorau'r Bwrdd. Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd y dogfennau hyn ddiwethaf gan y Bwrdd yn 2021.<br><br>Mabwysiadodd Cymoedd i'r Arfordir fersiwn ddiweddaraf o God Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru yn fuan ar ôl ei chyhoeddi yn 2021. Cyflwynwyd adolygiad cychwynnol o gydymffurfiaeth â'r Cod i'r Bwrdd ei ystyried a'i gymeradwyo yn ei gyfarfod fis Awst 2021. Awgrymodd yr adolygiad cychwynnol fod sicrwydd sylweddol o gydymffurfiaeth gyda phrif egwyddorion y Cod, ond adnabuwyd nifer o feysydd y byddai angen eu cryfhau.<br><br>Yn ddiweddar, gwnaethom benodi Cyfarwyddwr Llywodraethiant i arwain y tîm llywodraethu i sicrhau bod y safonau llywodraethu uchaf ar waith, ac i gynghori'r Bwrdd a'r Tîm Arwain ar arfer orau o ran llywodraethu.<br><br>Gan fanteisio ar lygaid ffres, bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu yn ymgymryd ag adolygiad o'r dogfennau llywodraethu sy'n cynnwys y gyfres lywodraethu drwy gydol | • Cod Llywodraethiant - Adolygiad blynyddol o'r adroddiad cydymffurfiaeth<br>• Penodi Cyfarwyddwr Llywodraethu sydd â chyswllt annibynnol i Gadeiryddion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, yn ogystal â'r Tîm Arwain. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chwarter 3 a 4 y flwyddyn ariannol hon fel rhan o adolygiad ehangach o lywodraethiant.<br><br>Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn sicrwydd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'i ddogfennau llywodraethu drwy ddarparu adroddiadau canlyniadau archwiliadau mewnol, yn ôl yr angen. Darparwyd yr adroddiad sicrwydd archwiliad mewnol llywodraethiant diwethaf i'r Bwrdd yn ei gyfarfod fis Gorffennaf 2021 a gadarnhaodd dystiolaeth o sicrwydd sylweddol bod argymhellion gan y gwaith gwirfoddol wedi'i fewnosod yn y fframwaith llywodraethu. | | |
| c) Yn sefydlu ac yn cyflawni ymrwymiadau mesuradwy yn seiliedig ar dystiolaeth ar draws pob maes o'i fusnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys gwrth-hiliaeth a threchu trosedd gasineb) gan adlewyrchu amrywiaeth y | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn cydnabod ei gyfrifoldebau mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd wedi'u hadlewyrchu yng nghynllun gweithredu 2022/23.<br><br>Nid oes ymrwymiadau mesuradwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith eto ond mae grŵp llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i sefydlu ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu | • Cynllun 4 blynedd - Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>• Datganiadau ymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol.<br>• Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu blynyddol.<br>• Penodi Aelod Bwrdd gydag arbenigedd mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cymunedau mae'n gweithio gyda nhw ac ynddynt | cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n golygu dull gweithredu cynyddrannol i gyflawni rhagoriaeth yn y maes hwn dros y 4 blynedd nesaf.<br><br>Comisiynwyd cwmni recriwtio Acorn fis Gorffennaf 2021 i helpu i recriwtio aelodau newydd ar gyfer y Bwrdd sy'n meddu ar sgiliau penodol a nodweddion amrywiaeth, fel yr adnabuwyd drwy adolygiad o fatrics sgiliau, cyflwyniad Amrywiaeth ein Bwrdd, a'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yng Nghod Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru 2021. Yn dilyn y broses recriwtio, penodwyd pedwar Aelod newydd i'r Bwrdd. Roedd gan un ohonynt arbenigedd mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a diwylliant Sefydliadol.<br><br>Rydym hefyd wedi cofrestru i addewid 'Gweithredu nid Geiriau' Tai Pawb. Mae ein cynllun i roi camau gweithredu ar waith yn unol â'r addewid wedi'i gynnwys fel rhan o'n map trywydd 4 blynedd - Gweithredu | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. | | |
| d) Meddu ar Fwrdd amrywiol, yn adlewyrchu'r cymunedau mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i fod yn effeithiol. | Mae 10 Aelod ar Fwrdd Cymoedd i'r Arfordir (4 gwryw a 6 benyw) yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd ac yn meddu, yn gyfunol, ar arbenigeddau sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i fod yn effeithiol. Adolygir proffil y Bwrdd yn barhaus ac yn sicr fel rhan o'r broses werthuso flynyddol a thrwy gyflwyno Amrywiaeth y Bwrdd i Lywodraeth Cymru. Defnyddir y wybodaeth hon i adnabod unrhyw fylchau mewn sgiliau a phrofiad ac i roi gwybod am unrhyw ofynion recriwtio ar gyfer y Bwrdd.<br><br>Mae nifer o Aelodau cyfredol ein Bwrdd yn hanu o ardal Pen-y-bont ar Ogwr ac mae un Aelod o'r Bwrdd yn denant Cymoedd i'r Arfordir.<br><br>Er bod y Gymdeithas yn ymdrechu am Fwrdd sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt, mae angen rhagor o waith i sefydlu proffil | • Aelodau Ein Bwrdd<br>• Matrics sgiliau a chynllun datblygu blynyddol y Bwrdd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ein cwsmeriaid cyn y gallwn fod yn sicr bod cyfansoddiad y Bwrdd yn adlewyrchu ein cymunedau yn fanwl gywir. Mae'r gwaith hwn wedi'i adnabod a'i gynnwys ym map trywydd pedair blynedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. | | |
| e) Yn gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir ac o ansawdd, sy'n cynnwys asesu risg a safbwyntiau tenantiaid, pryd bynnag mae hynny'n briodol | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir ac o ansawdd, sy'n cynnwys asesu risg a safbwyntiau tenantiaid. Mae gennym gynllun dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau.<br><br>Mae templed adrodd ein Bwrdd wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n sicrhau bod llais y rhanddeiliad a'r cwsmer, Gwerth am Arian, goblygiadau ariannol, Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, rheoli a sicrhau risg yn feysydd sy'n cael eu cynnwys ym mhob papur. | • Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cynllun Dirprwyo<br>• Templed o adroddiad y bwrdd<br>• Gweithdy risg - agenda a chyflwyniad | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r adroddiad diweddar ar y polisi gosod rhenti yn dangos ystyriaeth o wybodaeth glir a'r risgiau ehangach a safbwynt y rhanddeiliad i fod yn sail i benderfyniad y Bwrdd. | | |
| f) Yn galluogi ac yn cefnogi tenantiaid i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau strategol | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn ymrwymedig i gefnogi a galluogi ei denantiaid i ddylanwadu penderfyniadau strategol wrth ddarparu nifer o gyfleoedd a dewis o ran sut a pha bryd maen nhw'n ymgysylltu â ni. Mae hyn wedi'i nodi yn ein Strategaeth ymgysylltu tair blynedd, sy'n cyd-fynd ag olrheiniwr ymgysylltu i dystio ymglymiad a llwyddiant cwsmeriaid. Caiff hyn ei adrodd i'r Bwrdd fel rhan o'n hadroddiad ar berfformiad.<br><br>Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Bwrdd, cytunwyd y dylai'r Gymdeithas barhau i ymgysylltu cwsmeriaid mewn nifer o ffurfiau creadigol a bywiog i sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol ac y gellir uniaethu â hi.<br><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae | • Strategaeth Ymgysylltu 3 blynedd<br>• Q2 diweddariad ymgysylltu cwsmeriaid y bwrdd<br>• Strategaeth Dai<br>• Roedd cwsmeriaid ynghlwm â'r rownd ddiweddaraf o recriwtio ar gyfer y Bwrdd, yn ogystal â recriwtio cydweithwyr ar y rheng flaen, megis Partneriaid Tai Cymunedol a Phartneriaid Byw Cymunedol.<br>• Yn sgil lefelau isel o fodlonrwydd cwsmeriaid yn yr arolwg STAR, gwnaethpwyd penderfyniadau ynghylch prosiectau gwella ar gyfer gwella Trosiant Sefydliad Llafur Uniongyrchol a'r adolygiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith cwsmeriaid a chymunedau Tai<br>Cyflwyniad i'r Rhaglen Drawsnewid | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cwsmeriaid wedi bod ynghlwm â recriwtio ar gyfer y Bwrdd, datblygu ein Strategaeth Dai a chyfeirio ein ffocws drwy adborth ar fodlonrwydd.<br><br>Adroddwyd canlyniadau'r arolwg STAR i'r Bwrdd a dadansoddwyd y canlyniadau i lywio darpariaeth ein gwasanaeth, a bod yn sail iddo. Yr enghraifft ddiweddaraf o hyn oedd cyflwyno'r Rhaglen Drawsnewid a ganolbwyntiodd ar wella darpariaeth y gwasanaeth cynnal a chadw ac atgyweiriadau ar ôl i adborth gan gwsmeriaid ddangos bod y perfformiad yn y maes hwn wedi dirywio ac nad oedd yn bodloni'r safonau disgwyliedig. | | |
| g) Yn cydymffurfio'r holl ddeddfwriaethau, gofynion rheoleiddio a chanllawiau statudol perthnasol, ac yn cyfathrebu'n brydlon gyda'r rheoleiddiwr, gan gynnwys ar faterion sylweddol sy'n ymwneud | Mae systemau, prosesau a ffrydiau gwaith ar draws y sefydliad wedi'u dylunio i sicrhau bod Cymoedd i'r Arfordir yn cydymffurfio â'r gyfraith. Ymdrinnir â gweithgareddau allweddol sy'n ddarostyngedig i faterion cyfreithiol / rheoleiddio mewn polisïau, gweithdrefnau a nodiadau | • Polisïau a gweithdrefnau<br>• Adroddiad Integredig ar Berfformiad i'r Bwrdd bob Chwarter.<br>• Adroddiadau canlyniadau Archwiliad Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, gan dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw feysydd arwyddocaol/meysydd sy'n peri pryder | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ag anghydffurfiaeth wirioneddol neu bosibl | canllaw wedi'u dogfennu, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.<br><br>Mae aelodaeth gorfforaethol o sefydliadau perthnasol (e.e. Cartrefi Cymunedol Cymru), briffiau gan gynghorwyr proffesiynol, rhwydweithio cyffredinol a darpariaeth hyfforddiant / cefnogaeth / goruchwyliaeth barhaus o staff yn codi ymwybyddiaeth o faterion cydymffurfio, a newidiadau mewn gofynion deddfwriaethau / rheoleiddio. Darperir sicrwydd i'r Bwrdd drwy adroddiadau ar berfformiad, datganiadau rheoleiddio, adolygiadau allanol ac arolygiadau ac archwiliadau Iechyd a Diogelwch. Yn ogystal, adolygir gweithgareddau gan ein Harchwilwyr Mewnol yn unol â'r cynllun Archwilio Mewnol.<br><br>Mae gennym berthynas agored a gonest gyda'n Rheolwr Rheoleiddio ac rydym yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn rhagweithiol wrth gyfathrebu unrhyw faterion posibl o ddiddordeb rheoliadol. Cyflawnir hyn drwy gyflwyno ein datganiadau rheoleiddio, cyfarfodydd rheolaidd gyda'n Rheolwr Rheoleiddio yn barhaus, sgyrsiau | • Mae darpariaeth yn ein Rheolau a'n Rheolau Sefydlog ar gyfer y Bwrdd ac unrhyw un o'i is-bwyllgorau i geisio cyngor arbenigol annibynnol allanol ar unrhyw fater yn ôl yr angen. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhagweithiol a chyfathrebu unrhyw faterion sylweddol sy'n codi - ymhlith yr enghreifftiau diweddar mae Capio Nwy a'r diffyg penodi/ethol.<br><br>Rydym yn ceisio cyngor arbenigol mewn perthynas â meysydd risg uchel, megis cydymffurfiaeth a phensiynau ac rydym yn ceisio sicrwydd drwy ein cynllun archwilio mewnol. | | |
| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** | | |
| **SRh2** | **Trefniadau rheoli risg a sicrwydd cadarn ar waith** | | |
| **Gofynion** | **Sylwebaeth** | **Tystiolaeth o sicrwydd** | **Statws Cydymffurfiaeth** |
| a) Yn meddu ar fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolyddion mewnol a sicrwydd sy'n ei alluogi i adnabod a rheoli'n llwyddiannus risgiau cyfredol a newydd sy'n bygwth darpariaeth ei strategaeth neu ei gydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddio | Mae gan Cymoedd i'r Arfordir fframwaith rheoli risg cynhwysfawr ar waith sydd wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd, ac mae'n cael ei fonitro a'i adolygu bob chwarter gan ein Pwyllgor Archwilio a Risg. Yn ystod 2021/22, cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Risg i ddull gweithredu trylwyr sy'n sicrhau adolygiad rheolaidd o risgiau ac yn cynnig cyfle i asesu ac adnabod yn gynnar unrhyw faterion newydd a all effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion strategol. | • Fframwaith Rheoli Risg<br>• Sesiynau gweithdai risg gydag Arweinwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd - mis Ionawr a mis Mehefin 2022<br>• Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg<br>• Adroddiadau'r bwrdd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn unol â 4.7.3 o God Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru, mae'r Bwrdd yn adolygu dull gweithredu'r Gymdeithas i reoli risg yn flynyddol.<br><br>Ystyrir bod adroddiad Llywodraeth Cymru ar Risgiau'r Sector, sy'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol, yn sail i briodoldeb ein risgiau strategol. | | |
| b) Nid yw'n rhoi asedau neu denantiaid tai cymdeithasol mewn risg ddiangen | Nid yw Cymoedd i'r Arfordir yn rhoi asedau tai cymdeithasol nac ei gwsmeriaid mewn risg ddiangen. Iechyd a diogelwch ein cwsmeriaid yw ein prif flaenoriaeth.<br><br>Mae ein Cynllun Corfforaethol a'n Strategaeth Rheoli Asedau, yn ogystal ag adroddiadau ar berfformiad mewn perthynas â chydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch ac ar fetrigau allweddol eraill, yn ogystal â'r cynllun Archwiliad Mewnol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ac yn ein helpu ni i barhau ar y trywydd cywir mewn perthynas â bodloni ein hamcan o ddarparu cartrefi diogel a hapus.<br><br>Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro'n barhaus goruchwyliaeth o reolyddion a rheolaeth risgiau fewnol. | • Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio rheolyddion a rheolaeth risgiau fewnol<br>• Mae'r Pwyllgor Datblygu ac Asedau yn goruchwylio perfformiad cydymffurfiaeth asedau a landlordiaid<br>• Strategaeth Rheoli Asedau<br>• Adrodd ar berfformiad - Adroddiad Integredig ar Berfformiad bob Chwarter.<br>• Model SHAPE | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| c) Yn cynnal cynlluniau hygyrch a chyfredol ar gyfer parhad busnes, cynlluniau wrth gefn a chynlluniau adfer wedi trychineb | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn cynnal cynlluniau hygyrch a chyfredol ar gyfer parhad busnes, cynlluniau wrth gefn a chynlluniau adfer wedi trychineb. Rydym wedi llwyddo i lywio drwy'r pandemig drwy ddirprwyo ein seilwaith gweithio o bell a thrwy reoli ein busnes gyda gwaith cynllunio effeithiol.<br><br>Datblygwyd ein Cynllun Adfer wedi Trychineb yn dilyn canlyniad archwiliad mewnol ymgynghorol a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Awst 2021. Yn dilyn adolygiad dilynol mewn perthynas â'r mater hwn a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2022, cafwyd sicrwydd sylweddol bod y Cynllun Adfer wedi Trychineb yn ddigonol ac yn addas at y diben. | • Cynllun Parhad Busnes<br>• Cynllun Adfer wedi Trychineb<br>• Archwiliad Mewnol - archwiliad Parhad Busnes a TG (Ymgynghorol) (02.21/22) | |

| Cyf. | Safon Rheoleiddio |
|---|---|
| SRh3 | Cynnig gwasanaethau o ansawdd i denantiaid |

| Gofynion | Sylwebaeth | Tystiolaeth o sicrwydd | Statws Cydymffurfiaeth |
|---|---|---|---|
| a) Yn cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn adnabod a datrys yn brydlon unrhyw achos o | Mae gan y Gymdeithas Bolisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr ar waith sy'n nodi sut fyddwn yn mynd ati i gynnal | • Polisi Iechyd a Diogelwch<br>• Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch<br>• Adolygiadau Archwiliadau Mewnol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| danberfformio neu anghydffurfiaeth ar faterion iechyd a diogelwch y landlord | cydymffurfiaeth â'r holl ofynion iechyd a diogelwch statudol, perthnasol sydd ynghlwm â'n swyddogaethau fel cyflogwr a landlord. Mae monitro ein cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch drwy adrodd ar berfformiad yn helpu i sicrhau ein bod yn cadw ein cwsmeriaid yn ddiogel yn eu cartrefi drwy ein caniatáu ni i adnabod a datrys yn brydlon unrhyw achos o danberfformio neu anghydffurfiaeth.<br><br>Rydym yn cyflogi Tîm Iechyd a Diogelwch sy'n darparu swyddogaeth ymgynghorol a sicrwydd yn y sefydliad i weithredu a monitro gofynion iechyd a diogelwch. Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Swyddogion Arwain mewnol, yn ogystal â'r Pwyllgorau Archwilio a Risg a Datblygu ac Asedau.<br><br>Mae ein holl gartrefi presennol yn cydymffurfio â gofynion Safonau Ansawdd Tai Cymru (ar wahân i'r | • Adroddiadau Iechyd, Diogelwch a Chydymffurfiaeth i'r Pwyllgor Datblygu ac Asedau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rheini nad ydynt yn cydymffurfio bellach oherwydd problemau mynediad yn sgil Covid) ac mae ein cartrefi newydd yn cydymffurfio â'r Gofynion Ansawdd Datblygu. | | |
| b) Yn cyflawni gwasanaethau sy'n bodloni anghenion amrywiol tenantiaid | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn ymdrechu'n gyson i gyflawni gwasanaethau sy'n bodloni anghenion amrywiol ein cwsmeriaid. Rydym yn cynnig nifer o ffyrdd i'n cwsmeriaid gyfathrebu gyda ni ac yn yr un modd rydym yn cyfathrebu gyda chwsmeriaid yn y modd mwyaf priodol i gyd-fynd â'u hanghenion. Ymhlith y dulliau cyfathrebu mae dros y ffôn, e-bost, llythyr, neges destun, whatsapp, wyneb yn wyneb pan ydym ar safleoedd yn cynnal ymweliadau neu'n ymgymryd â digwyddiadau cymunedol neu ar gais gan y tenant ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol amrywiol.<br><br>Datblygir cynlluniau ymgysylltu unigryw yn ôl y gofyn i helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu neu | • Mae'r ffyrdd y gallwch gysylltu â ni i'w gweld ar ein gwefan - https://www.valleystocoast.wales/cy/cysylltu-a-ni/<br>• Gweithredu Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar draws y sefydliad - mae ysgogiadau i gydweithwyr ystyried Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cynnwys fel safonau yn ein polisïau a'n templedi adroddiadau<br>• Map trywydd 4 blynedd ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynnal tenantiaethau, yn aml mae hyn yn gofyn gweithio gydag asiantaethau eraill.<br><br>Ymgymerir ag asesiadau risg tân sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel rhan o'n cynlluniau gwarchod i deilwra darpariaeth y gwasanaeth er mwyn bodloni anghenion hygyrchedd amrywiol ein tenantiaid.<br><br>Cwblheir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn achos pob polisi newydd, yn ogystal â chael safbwyntiau penodol gan Tai Pawb. | | |
| c) Yn cyflawni ac yn cynnal lefelau uchel o fodlonrwydd tenantiaid gyda gwasanaethau | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn ymdrechu'n barhaus i gyflawni a chynnal lefelau uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid. Gofynnir am adborth gan gwsmeriaid (yn y ffyrdd amrywiol a nodwyd uchod) a chaiff ei ystyried gan y Tîm Arwain a'r Bwrdd i adolygu a gwella gwasanaethau a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd, yn ôl yr angen. | • Rhaglen drawsnewid<br>• Arolwg STAR<br>• Beaufort Research - arolwg annibynnol o fodlonrwydd cwsmeriaid<br>• Olrheiniwr Ymgysylltiad | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r sefydliad yn cymryd rhan yn yr arolwg STAR bob dwy flynedd ac yn gweithio mewn partneriaeth â Beaufort Research i ennill dealltwriaeth fwy strwythuredig a manwl o'r hyn mae ein cwsmeriaid eisiau bod yn sail iddo a'i lywio, yn hytrach na pa wasanaethau sydd eu hangen ar gwsmeriaid ac yr hoffai cwsmeriaid, ond hefyd sut y dylid cyflwyno'r rhain i fodloni amrywiaeth o anghenion.<br><br>Ymhlith yr enghreifftiau diweddar o adborth gan gwsmeriaid yn llywio gwasanaethau, mae adborth ar sut ydym yn rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyflawni ein gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw, y mae'r ddau ohonynt wedi'u hadolygu ar ôl derbyn adborth anffafriol ynghylch bodlonrwydd cwsmer. | | |
| d) Yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch perfformiad landlordiaid ar gael i denantiaid | Rydym yn cyhoeddi nifer o ddogfennau i'n tenantiaid ar ein gwefan, gan gynnwys ein cynllun corfforaethol, datganiadau ariannol | [https://www.valleystocoast.wales/cy/amdanom-ni-2/ein-cyhoeddiadau/](https://www.valleystocoast.wales/cy/amdanom-ni-2/ein-cyhoeddiadau/) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | blynyddol a chanlyniad y dyfarniad rheoleiddio.<br><br>Serch hynny, rydym yn cydnabod y gallem wneud mwy mewn perthynas â hyn, ac felly byddwn yn adolygu ac yn gweithredu rhai gwelliannau yn y maes hwn. | | |
| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** | | |
| **SRh4** | **Tenantiaid yn cael y cyfle a'r gefnogaeth i ddylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau** | | |
| **Gofynion** | | **Tystiolaeth o sicrwydd** | **Statws Cydymffurfiaeth** |
| a) Yn creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfraniad gan denantiaid | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn ymdrechu i greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfraniad cwsmeriaid.<br><br>Fel yr amlinellir yn SRh 3 (b) uchod, rydym yn ymgysylltu â chwsmeriaid mewn amrywiaeth o ffyrdd ac rydym bob amser yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu (y tu hwnt i ddarparu adborth) yn greadigol, yn fywiog ac yn berthnasol i'r gynulleidfa fwriadedig. | Mae gennym Strategaeth Ymgysylltiad Cwsmeriaid dros 3 blynedd a gafodd ei diweddaru a'i chyhoeddi ar ein gwefan yn ddiweddar.<br>Rydym hefyd yn cadw dogfen olrhain ymgysylltiad i gadw cofnod o ymgysylltiad a chyfraniad cwsmeriaid ac i adnabod lle mae hyn wedi llwyddo. | |
| b) Yn galluogi tenantiaid i ddeall dull gweithredu'r sefydliad mewn | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn galluogi amgylchedd i gwsmeriaid ddeall dull gweithredu'r sefydliad mewn | • Strategaeth Ymgysylltu Cwsmeriaid<br>• Fideo ar gyfer y Strategaeth Ymgysylltu | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| perthynas â chyfraniad tenantiaid, sut allant gymryd rhan a sut fydd y sefydliad yn gwrando ar adborth tenantiaid, ac yn gweithredu arno, ac yn dysgu gan gwynion. | perthynas â chyfraniad tenantiaid a sut allant gymryd rhan. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio tuag at roi dull gweithredu ar gyfer ymgysylltu cwsmeriaid i'r sefydliad cyfan. Bydd y dull gweithredu hwn yn golygu y bydd *pob* tîm yn gweithio gyda chwsmeriaid, ac yn gwrando arnynt, i lywio ein gwaith fel sefydliad a sut ydym yn mynd ati i'w wneud, a bod yn sail iddo.<br><br>Fel y nodwyd isod, mae ein strategaeth ymgysylltu cwsmeriaid ar gael i gwsmeriaid ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi creu fideo ar gyfer y Strategaeth Ymgysylltu i egluro sut ydym yn bwriadu ymgymryd â gwahanol weithgareddau ymgysylltu.<br><br>Rydym wedi ymgymryd ag arolwg i ddeall sut mae'r holl gydweithwyr yn gweithio gyda chwsmeriaid. Cawsom 36 o ymatebion gan gydweithwyr. Dywedodd 23 o ymatebwyr eu bod wedi ymgysylltu â chwsmeriaid a chymunedau yn y flwyddyn ddiwethaf. | • Holiadur cydweithwyr | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Wedi dweud hynny, pan ofynnwyd iddynt a ydym yn gwrando ac yn gweithredu ar eu hadborth, dywedodd 22 fel sefydliad mai dim ond weithiau ydym ni'n gwrando ar eu barn nhw, atebodd 3 'na' ac atebodd 11 'ie'. Mae'n dda gweld bod 22 o gydweithwyr yn bwriadu gwneud mwy o ymgysylltu yn y flwyddyn nesaf, ond dywedodd 14 eu bod yn ansicr.<br><br>Ym marn cydweithwyr, mae amser, prinder staff a'r gyllideb yn rhwystro hyn ond mae'n faes yr ydym yn ceisio'n rhagweithiol ei wella ac felly rydym yn cydnabod bod angen newid yn y diwylliant i fewnosod hyn fel ymarfer safonol. | | |
| c) Yn rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan, yn gallu dangos bod tenantiaid yn fodlon gyda nhw ac yn gallu dangos y gwahaniaeth mae eu cyfraniad yn ei wneud | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn ymdrechu i gynnig nifer o gyfleoedd i denantiaid gyfrannu. Gweler bodlonrwydd cwsmeriaid â'r gweithgareddau ymgysylltu a'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig iddynt, yn ogystal ag effaith y digwyddiadau ymgysylltu hyn yn ein Holrheiniwr ymgysylltiad. Mae'r | • Olrheiniwr ymgysylltiad<br>• Cynllun Gweithredu Melin WylltEAP - Melin Wyllt | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | olrheiniwr ymgysylltiad yn cofnodi'r amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, boed ar-lein neu ar gyfryngau cymdeithasol, dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy'r post. Mae hefyd yn dangos ein bod yn ymgynghori ar ystod eang o bynciau i gyd-fynd â buddion unigol gwahanol bobl.<br><br>Mae cyfraniad cwsmeriaid wedi cael effaith ar lawer o'r ffordd strategol o feddwl a datblygiad Cymoedd i'r Arfordir fel busnes.<br><br>Gweler enghraifft o ganlyniad cadarnhaol yn sgil peth o'r ymgysylltiad mwy gweithredol yn y cynllun gweithredu a ddatblygwyd ar gyfer un o'r stadau mwyaf ym Melin Wyllt. | | |
| d) Yn gallu dangos bod safbwyntiau a disgwyliadau tenantiaid gwahanol yn sail i ddatblygu ac adolygu tai a gwasanaethau cysylltiedig, a'r ymateb i | Drwy'r enghreifftiau a nodwyd uchod, ac o ganlyniad i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid, mae safbwyntiau a disgwyliadau tenantiaid gwahanol yn sail i ddatblygu ac adolygu tai a | • Olrheiniwr ymgysylltiad<br>• Arolwg STAR<br>• Beaufort Research - bodlonrwydd cwsmeriaid | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| unrhyw achos o danberfformio | gwasanaethau cysylltiedig, a'r ymateb i unrhyw achos o danberfformio.<br><br>Ymhlith enghreifftiau diweddar o hyn, fel y nodwyd uchod, mae adolygiad o'n dull gweithredu i reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyflawni ein gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw. | | |
| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** | | |
| **SRh5** | **Rhenti a chostau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid heddiw ac yfory** | | |
| **Gofynion** | | **Tystiolaeth o sicrwydd** | **Statws Cydymffurfiaeth** |
| a) Yn sicrhau y cydymffurfir â phob rheol a chanllaw statudol perthnasol (gan gynnwys y cytundeb rhent cyfredol) | Anogir ein staff i fynychu hyfforddiant a chymryd rhan mewn digwyddiadau rhwydweithio sy'n berthnasol i'r sector er mwyn cadw ar flaen heriau'r sector, yn ogystal ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a/neu ganllawiau statudol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â phob rheol a chanllaw statudol perthnasol (gan gynnwys y cytundeb rhent cyfredol).<br><br>Caiff ein lefelau rhent ar gyfer ein heiddo Anghenion Cyffredinol a Llety Gwarchod eu pennu gan Gytundeb | Gwnaethom ymgysylltu â bron i 800 o breswylwyr i gasglu eu safbwyntiau ar lefelau rhent drwy ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol - Ymgysylltu â Thenantiaid parthed Cynnydd mewn Rhent | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhent Llywodraeth Cymru, yr ydym yn cydymffurfio ag ef. Yn ogystal, rydym wedi gweithredu model rhent byw ac yn sicrhau bod fforddiadwyedd, sy'n cael ei lywio gan ein tenantiaid, wrth galon ein proses o wneud penderfyniadau. | | |

| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** |
|---|---|
| **SRh6** | **Mae gan y sefydliad agwedd strategol at werth am arian sy'n sail i'w holl gynlluniau a gweithgareddau** |

| **Gofynion** | **Sylwebaeth** | **Tystiolaeth o sicrwydd** | **Statws Cydymffurfiaeth** |
|---|---|---|---|
| a) Yn pennu ei agwedd strategol at werth am arian, gan sicrhau bod yr agwedd yn cyd-fynd â'i ddiben cymdeithasol, ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol â honno | Mae gennym strategaeth Gwerth am Arian ar waith sy'n ymdrin â'n hagwedd at ddiben cymdeithasol a chyflawni Gwerth am Arian ar draws y sefydliad. Mae ein strategaeth yn cael ei diweddaru yn 2022 a chaiff ei chyflwyno i'r Bwrdd ei chymeradwyo.<br><br>Cydnabyddwn fod angen i ni wneud mwy fel sefydliad i ddeall beth mae gwerth am arian yn ei olygu yng nghyd-destun Cymoedd i'r Arfordir. Gwnaethom gomisiynu Cwmpas i'n cefnogi ni i ddatblygu ein polisi gwerth cymdeithasol a'n galluogi ni i | Strategaeth Gwerth am Arian wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddiweddaru a mewnosod ein strategaeth Gwerth am Arian. | | |
| b) Yn gallu dangos i randdeiliaid, yn cynnwys tenantiaid, ei fod yn cyflawni gwerth am arian o ran cyflawni ei strategaeth a'i wasanaethau | Rydym yn adrodd ar fetrigau allweddol Gwerth am Arian drwy'r broses cyfrifon rheoli yn fisol, a hefyd fel rhan o'r adroddiadau ar berfformiad bob chwarter, sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.<br><br>Mae angen rhagor o waith i sefydlu ffordd addas o gyfleu hyn i'n tenantiaid a'n rhanddeiliaid eraill. | Adroddiad Integredig ar Berfformiad bob Chwarter i'r Bwrdd | |

| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** | | |
|---|---|---|---|
| **SRh7** | **Cynllunio a rheolaeth ariannol yn gadarn ac effeithiol** | | |
| **Gofynion** | | **Tystiolaeth o sicrwydd** | **Statws Cydymffurfiaeth** |
| a) Yn gosod cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a chyflawni ei ddiben cymdeithasol, a bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd | Drwy'r cylchred cynllunio, mae Cymoedd i'r Arfordir yn sefydlu cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a chyflawni ei ddiben cymdeithasol, ac mae adroddiadau priodol yn cael eu | • Bwrdd, 23 Awst 2021 - B44.21/22 Cynllun Busnes 30 mlynedd<br>• Bwrdd, 22 Tachwedd 2021 - B61.22/22 Adroddiad ar Werthuso Perfformiad Asedau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| mewn cymhariaeth â'r cynlluniau hyn | cyflwyno i'r Bwrdd mewn cymhariaeth â'r cynlluniau hyn.<br><br>Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Bwrdd yn cael argymhellion amrywiol mewn perthynas â'r cynlluniau ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod a diweddariadau dilynol drwy gydol y flwyddyn ynghylch perfformiad ariannol fel rhan o adroddiad diweddaru Perfformiad Integredig Chwarterol. | • Bwrdd, 22 Tachwedd 2021 - B62.21/22 Adolygiad o'r Gyllideb ac Edrych Ymlaen<br>• Bwrdd, 7 Mawrth 2022 - B85.21/22 Cyllideb Flynyddol 2022/23<br>• Polisi Rheoli Trysorlys | |
| b) Yn ariannol ddichonadwy yn y tymor byr, canolig a hir, ac yn cynnal cyllid a hylifedd digonol i gefnogi hyn | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn sicrhau ei fod yn ariannol ddichonadwy yn y tymor byr, canolig a hir, ac yn cynnal cyllid a hylifedd digonol i gefnogi hyn.<br><br>Mae profi dichonolrwydd ariannol drwy fecanweithiau modelu ac adolygu yn rhan hollbwysig o'n cylchredau cynllunio yn y tymor byr, canolig a hir.<br><br>• **Tymor Hir** - Caiff y Cynllun Ariannol 30 Mlynedd ei roi dan brawf i sicrhau gwytnwch economaidd a masnachol; Mae allbwn y model llif arian yn adnabod ysgogiadau cyllid gan | • Fel yr uchod<br>• Cyfrifon Rheoli | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | alluogi'r trysorlys i gynllunio a monitro'r gorwel hylifedd<br>● **Tymor Canolig** - Cynllun Cyllideb cymeradwy yn gosod awdurdod dirprwyedig ar gyfer gwariant yn y flwyddyn ac yn darparu meincnod ar gyfer mesur perfformiad. Caiff llif arian y flwyddyn ariannol bresennol, llif arian treigl am 24 mis a hylifedd 3+ blynedd eu diweddaru gyda data rhagolwg newydd yn fisol. Mae'r metrigau hyn yn sail i benderfyniadau tynnu i lawr cyfleuster credydau a chynllunio tymor canolig y trysorlys<br>● **Tymor Byr** - Cyfrifon Rheoli gyda sylwebaeth ac adroddiad Trysorlys yn cael eu cyhoeddi'n fisol. Mae adolygiad y pwyllgor gweithredol yn sicrhau bod materion yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod ymyriadau cywirol yn cael eu gweithredu. Caiff blaendaliadau banc a chyfleuster credydau cylchol eu rheoli'n rhagweithiol i wneud y mwyaf o gostau llog wrth gynnal hylifedd dyddiol | | |
| c) Yn monitro ac yn adrodd ar bob cyfamod y | Mae Cymoedd i'r Arfordir wedi neilltuo adnodd trysorlys proffesiynol | ● Bwrdd, 21 Mai 2021 - B03.21/22 Diweddariad Trysorlys ac Ail-gyllido | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| mae wedi'i gytuno arno gyda'r cyllidwyr, ac yn cydymffurfio â nhw | pwrpasol i fonitro trafodion trysorlys, adrodd arnynt a'u rheoli. Caiff adroddiad trysorlys cynhwysfawr sy'n ymdrin â sefyllfaoedd benthyca, perfformiad cyfamodau (sicrwydd llog, sicrwydd asedau, gerio) a rhagolwg o lifiau arian ei adnewyddu a'i gyhoeddi'n fisol.<br><br>Mae 'Rheolau aur' sy'n cael eu cefnogi gan y Bwrdd ar waith i sicrhau hyblygrwydd rhag achos o dorri cyfamod ac i wneud camau gweithredu cywirol yn ôl yr angen.<br><br>Cynhelir cyfathrebu rheolaidd gydag arianwyr, gan gynnwys gweledydd yr adroddiad trysorlys a pharatoi datganiadau cydymffurfiaeth blynyddol yn brydlon.<br><br>Mae ymgysylltiad rhagweithiol gyda benthycwyr wedi arwain at addasiadau cytunedig i baramedrau cyfamodau, pryd bynnag mae hynny'n briodol (eithrio mesurau) a rhannu cynlluniau busnes. | • Rheolau aur ar waith | |
| d) Yn adnabod ac yn rheoli'n effeithiol risgiau i gyflawni'r cynlluniau | Mae cynlluniau ariannol Cymoedd i'r Arfordir yn gwneud adroddiad o | Fel y nodir yn SRh7 (a)-(c) uchod. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ariannol, gan gynnwys cynnal profion priodol, cynllunio sefyllfaoedd a defnyddio trothwyau mewnol | gofrestr sgiliau'r sefydliad a risgiau'r sector yn gyffredinol.<br><br>Mae mecanweithiau modelu ac adolygu sydd wedi'u hymgorffori yn ei gylchredau cynllunio tymor byr a thymor canolig yn ceisio adlewyrchu risgiau ariannol y dyfodol wedi'u hamlygu neu wedi'u graddnodi.<br><br>Ymhlith y mecanweithiau hyn mae: ail-ragweld yn fisol sefyllfaoedd cyllideb, cymeradwyo trosglwyddo cyllideb, monitro rheolau aur cyfamodau, cyfyngiadau gwariant ar gaffael, trothwyau ar gyfer metrigau gwerthuso datblygiad.<br><br>Mae modelu hirdymor drwy'r cynllun 30 mlynedd yn ymgorffori rhoi'r rhagdybiaethau sylfaenol dan brawf, e.e. ffactorau economaidd macro, cyfyngiadau ar incwm ac uwchgyfeirio costau sy'n benodol i sector. Gwneir gwaith cynllunio Sefyllfaoedd helaeth i raddnodi effaith digwyddiadau economaidd/masnachol sylweddol ac adnabod ffactorau lleddfu neu gamau gweithredu posibl i ddatrys. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| e) Yn meddu ar strategaeth rheoli trysorlys effeithiol a phrosesau cysylltiedig | Cytunwyd ar strategaeth trysorlys hirdymor Cymoedd i'r Arfordir gyda'r bwrdd a'i weithredu yn 2021 gan arwain at ymarfer ail-gyllido i wneud y mwyaf o'r capasiti, yr hyblygrwydd a'r gwerth am arian ar sefyllfaoedd benthyca.<br><br>Gan gydweithredu ag ymgynghorwyr allanol profiadol, bydd y strategaeth hon yn parhau i ymateb yn briodol i'r amgylchedd gweithredol sy'n datblygu.<br><br>Mae polisi trysorlys Cymoedd i'r Arfordir yn cyflawni agweddau gweithredol y strategaeth trysorlys. Cafodd y polisi ei adnewyddu yn 2022 ac mae'n diffinio'r canlynol: rolau, cyfrifoldebau, awdurdodau dirprwyedig, trothwyau ar gyfer amlygiad cyfraddau llog sefydlog ac amrywiadwy, rheolau aur, cyfyngiadau dirprwyo, targedau hylifedd, diffiniad o barti i gontract, adroddiadau a pholisïau deilliedig a meini prawf (gwerth am arian, cydymffurfiaeth etc). | • Strategaeth Trysorlys<br>• Polisi Trysorlys | |
| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** | | |

| SRh8 | Asedau a rhwymedigaethau wedi'u rheoli'n dda | | |
|---|---|---|---|
| **Gofynion** | | **Tystiolaeth o sicrwydd** | **Statws Cydymffurfiaeth** |
| a) Yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl gywir a chyfredol o'i asedau a'i rwymedigaethau | Mae gan Cymoedd i'r Arfordir ddealltwriaeth fanwl gywir a chyfredol o'i asedau a'i rwymedigaethau, ac mae'n cadw Cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau gyfredol, a gafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i'w hadolygu a'i harchwilio, yn unol â'i Gylch Gorchwyl fel y'u gosodwyd a'u cytunwyd gan y Bwrdd. Ystyriwyd hyn gan y Bwrdd mewn perthynas â chyflawni ei gyfrifoldeb i gymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol. Mae'r Gofrestr yn monitro gwerth a dibrisiant ein hasedau ac mae'n werthfawr wrth wneud cynlluniau busnes ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir. | • Cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau<br>• Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, 18 Gorffennaf 2022 - ARC09.22./23 Cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau - Diweddariad blynyddol | |
| b) Yn gwneud y defnydd gorau o'r asedau i gyflawni ei ddiben cymdeithasol ac amcanion y sefydliad | Mae gennym Gynllun Corfforaethol a Chyllideb, y mae'r ddau ohonynt yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod ar y trywydd cywir ac yn parhau i fod yn briodol yng ngoleuni unrhyw heriau neu faterion sy'n newydd neu'n ymgodi.<br><br>Ymdrecha Cymoedd i'r Arfordir uchafu'r defnydd o'i asedau i gyflawni | • Strategaeth Gorfforaethol<br>• Bwrdd, 23 Awst 2021 - B44.21/22 cynllun busnes 30 mlynedd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ei ddiben cymdeithasol ac amcanion y sefydliad ac mae'n gwneud hyn drwy ymgymryd ag agwedd fesuredig drwy werthuso ein cartrefi cyn bod unrhyw fuddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud i sicrhau bod yr eiddo yn cyflwyno buddion cadarnhaol, yn ariannol ac yn gymdeithasol.<br><br>Wedi dweud hynny, mae ein gallu i gyflawni ein llawn botensial fel landlord cymdeithasol wedi'i rwystro gan y diffyg cyllid gwaddol a roddwyd i ni fel rhan o'r cytundeb trosglwyddo. Cymoedd i'r Arfordir oedd sefydliad trosglwyddo stoc mawr cyntaf Cymru, ac yn anffodus mae'n anghyffredin ein bod yn wynebu'r her ariannol hon gan fod sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr eraill wedi cael buddsoddiad llawer mwy a pharhaus fel rhan o'u cytundebau trosglwyddo perthnasol. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ychwanegol i uchafu'r effaith gadarnhaol y gallwn ei chael ar ein tenantiaid a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| c) Yn defnyddio gwybodaeth gywir ynghylch asedau a rhwymedigaethau i fod yn sail i benderfyniadau strategol ac ariannol | Caiff data mewn perthynas â cholledion rhent ac eiddo gwag ei fonitro yn barhaus a'i adrodd i'r Tîm Arwain yn fisol neu'n gynt os yw hynny'n briodol.<br><br>Defnyddiwyd data mewn perthynas â chyflwr ein stoc a'n statws cydymffurfio ag ansawdd adeiladu Safonau Ansawdd Tai Cymru fel tystiolaeth fel rhan o'n hail-gyllido diweddar.<br><br>Rydym yn adrodd ein cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn flynyddol, a chaiff gwybodaeth fanwl ynghylch benthyciadau a diogelwch ychwanegol ei chyflwyno i'r Bwrdd yn ein Hadroddiad Trysorlys, sy'n cael ei ddiweddaru bob mis. Rydym yn sicrhau ein bod yn adrodd y lefel o ddiogelwch ychwanegol sydd gennym gan fod angen ystyried hynny ar gyfer unrhyw fenthyciadau neu ail-gyllido yn y dyfodol. | • Cyfres dangosyddion perfformiad allweddol<br>• Data o arolygon cyflwr stoc<br>• Data cydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Tai Cymru<br>• Cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau | |

| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** |
|---|---|
| **SRh9** | Y sefydliad yn darparu llety o ansawdd |

| **Gofynion** | **Sylwebaeth** | **Tystiolaeth o sicrwydd** | **Statws Cydymffurfiaeth** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| a) Yn sicrhau bod cartrefi sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus yn bodloni'r holl safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol sy'n ymwneud ag ansawdd llety, gan gynnwys Safon Ansawdd Tai Cymru | Mae pob cartref newydd yn cydymffurfio â safonau Gofynion Ansawdd Datblygu a bod pob cartref cyfredol yn bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru.<br><br>Mae Cymoedd i'r Arfordir wedi bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru. Cwblheir y gwelliannau a awgrymir gan gwsmeriaid pan ddaw'r eiddo yn wag. | Datganiadau Data Tai Llywodraeth Cymru, yn cynnwys cyflwyniad blynyddol Safonau Ansawdd Tai Cymru. | |

Cymeradwywyd yr hunanarfarniad hwn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Awst 2022, Rhif y Ddogfen B44.22/23.

Llofnodwyd: [Cadeirydd] [Prif Weithredwr] Dyddiad: 22 Awst 2022